YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# Astudiaeth Achos 1 yr Eglwys yng Nghymru

# Taith Adfent

**Crynodeb o ymchwil ystafell ddosbarth sy'n canolbwyntio ar dymor Cristnogol yr Adfent a chroesawu pobl sy'n ceisio noddfa.**



YR EGLWYS YNG NGHYMRU — THE CHURCH IN WALES

**Mae gan Gymru hanes cyfoethog a nodedig gyda'i hiaith, ei thraddodiadau, gwyliau, cerddoriaeth a gwleidyddiaeth ei hun.**

**Mae ganddi'r enw am fod yn wlad sy'n estyn croeso cynnes, ond sut ydyn ni'n dadansoddi'r croeso hwnnw? Sut ydyn ni'n modelu'r croeso hwnnw ac addysgu ein plant a'n pobl ifanc am ei bwysigrwydd?**




**Mae dathlu a sefydlu natur amrywiol bywyd Cymru yn hanfodol i ethos ysgolion yr Eglwys yng Nghymru. Roedden ni'n awyddus i ddadansoddi effaith hyn yn ddyfnach trwy gysyniadau croeso, lloches a noddfa.**
**Elizabeth Thomas, Cyfarwyddwr Addysg, Yr Eglwys yng Nghymru**


## Beth ddigwyddodd

**Cynhaliwyd ymchwil mewn ysgolion ledled Cymru. Nodwyd ysgolion ffocws o bob esgobaeth i roi adborth mwy manwl. Cynhyrchwyd adnoddau cymorth dwyieithog gan y tîm, gan gynnwys nodiadau i athrawon, awgrymwyd rhestr o adnoddau, posteri egwyl a myfyrio a myfyrdod ac awgrymiadau ar gyfer addoli. Roedd yr holl adnoddau ar gael ar ein gwefan. Rhoddwyd copi o'r llyfr Refuge gan Anne Booth i bob ysgol fel ysgogydd ar gyfer y prosiect, a oedd yn canolbwyntio ar dri phrif nod.**

1. **Cynyddu ymwybyddiaeth plant a'u dealltwriaeth o'r cysyniad o geisio Noddfa.**
2. **Deall sut mae ethos ysgol yr eglwys yn cefnogi a chyfoethogi gallu plant i fyfyrio ar y cysyniad o loches.**
3. **Archwilio a yw agweddau ac ymddygiad plant wedi newid a sut mae'r ethos Cristnogol wedi cefnogi'r newid hwn.**

**Cyfarfu'r Cyfarwyddwyr Addysg a'r swyddogion cefnogi ysgolion ag ysgolion yn eu hesgobaethau i ddosbarthu'r wybodaeth. Galluogodd hyn yr ysgolion i rannu syniadau a'u dulliau gyda'u cydweithwyr hefyd.**






**Plant o Ysgol Gynradd Dewi Sant yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy, yn ystyried y gair Croeso a'r llyfr Refuge.**

**COVID 19**
**Wrth ymateb i’r pandemig, datblygwyd pecynnau dysgu yn y cartref er mwyn i’r prosiect fod yn rhan o ddull cyfunol yr ysgol o ddysgu.**

**Yn anffodus yn sgil cau ysgolion, ni allodd rhai ysgolion gwblhau’r prosiect fel y byddent wedi hoffi gwneud. Fodd bynnag, bu modd i ysgolion ddefnyddio offer dysgu cydweithredol ar-lein megis jamboard i ddatblygu elfennau’r prosiect ymhellach.**




**Enghraifft Jamboard Ysgol Gynradd Dewi Sant yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy**

**Cyflawnodd ysgolion y prosiect mewn ffyrdd gwahanol. Treuliodd rai amser byr bob dydd yn canolbwyntio ar y themâu a’r myfyrdodau, roedd eraill wedi neilltuo un wers yr wythnos ar gyfer y prosiect ac eraill wedi ei gyfuno â chwricwlwm a bywyd yr ysgol.**

## Data ansoddol a meintiol

**Casglwyd data trwy ddau ddull gwahanol.**
**1– Llenwodd ysgolion holiadur ar-lein i ddarparu data ar: ddefnyddio deunyddiau, ymgysylltiad â’r prosiect, a llwyddiant y prosiect o ran mynd i’r afael â’r prif amcanion.**
**2 - Gofynnwyd i ysgolion ffocws roi adborth ar ddata ychwanegol. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i’r plant ar ddechrau’r prosiect ac yna ar ei ddiwedd. Gofynnwyd i ysgolion dynnu ffotograffau a dogfennu unrhyw agweddau allweddol ar y dysgu, yn enwedig myfyrdodau plant. Hefyd gofynnwyd i ysgolion rannu eu gwaith drwy'r cyfrwng cymdeithasol #taithadfent**











**Gweler mwy ar-lein #taithadvent**
**@churchinwales @llandaffed @ysgolianB @DioStAsaphEdu**
**@monfaithfamily @swanbreced**

## Data Holiaduron

**Ymatebodd 37 ysgol i holiadur ar-lein**



**Defnyddiodd 50% o'r ysgolion yr adnoddau yn y Cyfnod Sylfaen a CA2. 40% yn CA2 yn unig 10% yn y CS yn unig**




**Defnyddiodd 34/37 o ysgolion y llyfr Refuge. Defnyddiwyd yr addoliadau, y cyfnodau egwyl a'r nodiadau athrawon gan fwy na hanner yr ysgolion**

**Cwestiwn 1 - Pa mor dda oedd y prosiect yn galluogi i'r plant ddatblygu eu dealltwriaeth o loches a phobl yn ceisio noddfa?**

**Y sgôr cyfartalog ar gyfer bodloni amcan y prosiect hwn oedd 8/10.**
**Dywedodd Athrawon:**

**" Roedd y llyfr a'r adnoddau'n cefnogi'r disgyblion i drafod mater ehangach lloches a'n galluogi i gael trafodaeth ddyfnach ar y mater."**

**"Cysyniad gwych y dylid annog plant i ddysgu amdano. Rhoddodd y prosiect hwn y syniadau, y gwaith cynllunio a'r adnoddau angenrheidiol i allu cyflwyno plant i bwnc heriol a pherthnasol. Fe fwynheais i ei gyflwyno."**

**Cwestiwn 2 - Pa mor effeithiol oedd yr adnoddau o ran annog plant i fyfyrio ar y cysyniad o loches/noddfa?**

**Y sgôr cyfartalog ar gyfer bodloni amcan y prosiect hwn oedd 8/10.**
**Dywedodd Athrawon:**

**"Gwnaeth i'r plant feddwl yn fwy eang wrth drafod y cysyniad o loches."**

**"Deallodd y plant y sefyllfa o ffoi a methu â dweud wrth eich teulu i ble roeddech chi'n mynd. Roedd tudalen olaf Refuge, pan fo teulu wedi cynnig lle iddyn nhw a rhannu'r hyn sydd ganddyn nhw wedi cyfoethogi'r cysyniado noddfa."**

**"Cafwyd llawer o drafod am bwysigrwydd gofalu am bobl sy'n llai ffodus na ni. Llawer o gyfle ar gyfer myfyrdod personol."**

**Cwestiwn 3 - Pa mor effeithiol oedd yr adnoddau o ran hwyluso newid yn agweddau a safbwyntiau'r plant?**

**Y sgôr cyfartalog ar gyfer bodloni amcan y prosiect hwn oedd 8/10.**
**Dywedodd Athrawon:**

**"Mae'n helpu i ddatblygu empathi. Hefyd fe ddefnyddion ni'r adnodd mewn cyfarfod staff i drafod ein hagweddau a'n safbwyntiau ein hunain."**

**"Rhoddodd gyfle i'r disgyblion drafod agweddau a safbwyntiau mewn amgylchedd diogel"**

**"Roedd hyn yn dibynnu ar ddefnydd yr athro unigol o adnoddau. Mae gan ein hysgol ni nifer o ffoaduriaid felly roedd y pwnc yma yn taro tant arbennig i ni. "**

**Cwestiwn 4 - Beth oedd y plant am ei newid ar ddiwedd y prosiect? Sut fyddan nhw'n gwneud hyn?**

"Ysgrifennodd Blwyddyn 6 Siarter Ffoaduriaid ar gyfer yr ysgol, a threfnodd rhai dosbarthiadau gasgliadau a rhoddion ar gyfer Elusen yr Enfys, gan eu bod nhw'n casglu at ffoaduriaid trwy annog pobl i roi un peth ar gyfer pob diwrnod o'r Adfent "

"Rwyf fi wedi prynu 'My name is not refugee' ac mae'r llyfr 'We are all welcome' gen i hefyd. Cawsom drafodaeth ar hawliau'r plentyn hefyd."

"Rydyn ni'n symud ymlaen i, "We are all born free," datganiad cyffredinol hawliau dynol mewn lluniau, pan fyddwn ni i gyd yn ôl gyda'n gilydd."

Atebodd bron i 1/2 yr ysgolion yn gadarnhaol neu efallai pan ofynnwyd a oedd disgyblion wedi defnyddio'r adnoddau gartref.

Roedd ffyrdd ymlaen yn cynnwys:

Gwneud adnoddau'n fwy hygyrch i'r Cyfnod Sylfaen ac adnoddau ar gael i ysgolion yn gynharach yn y flwyddyn er mwyn gallu eu cynnwys wrth flaengynllunio. Gellid ailadrodd neu ymestyn y prosiect maes o law er mwyn dyfnhau dealltwriaeth.

**Cwestiwn 5 - Beth oedd y plant am ei newid ar ddiwedd y prosiect? Sut fyddan nhw'n gwneud hyn?**

"Ysgrifennodd Blwyddyn 6 Siarter Ffoaduriaid ar gyfer yr ysgol, a threfnodd rhai dosbarthiadau gasgliadau a rhoddion ar gyfer Elusen yr Enfys, gan eu bod nhw'n casglu at ffoaduriaid trwy annog pobl i roi un peth ar gyfer pob diwrnod o'r Adfent "

"Rwyf fi wedi prynu 'My name is not refugee' ac mae'r llyfr 'We are all welcome' gen i hefyd. Cawsom drafodaeth ar hawliau'r plentyn hefyd."

"Rydyn ni'n symud ymlaen i, "We are all born free," datganiad cyffredinol hawliau dynol mewn lluniau, pan fyddwn ni i gyd yn ôl gyda'n gilydd."

"Trugaredd a meddylfryd newydd pan welan nhw neu pan glywan nhw am ffoaduriaid ar y cyfryngau "

"Roedd y plant am ysgrifennu llythyr at y prifathro i egluro'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu am loches a sut i wneud i bobl deimlo bod croeso iddyn nhw yn yr ysgol. Hefyd roedd y plant am greu taflen/poster a oedd yn nodi prif nodweddion/pwyntiau'r ysgol er mwyn estyn croeso i ymwelwyr."

"Roedd y plant am ledaenu neges caredigrwydd a chroeso . Mae un o'n pwyllgorau plant yn ystyried sut i gefnogi achosion elusennol / da ac awgrymwyd y gallen ni fod yn cefnogi ffoaduriaid."

## Adborth Ysgol Ffocws

**Nod 1 – Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth plant o’r cysyniad o bobl yn ceisio noddfa.**

**Enghreifftiau o arddangosfeydd ar draws ysgolion yn dangos datblygiad dealltwriaeth plant o’r adfent a lloches. Cafodd hyn ei ddatblygu a’i atgyfnerthu bob wythnos.**




Arddangosfa wal ar waith yn Ysgol Gynradd y Santes Fair yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu




Arddangosfa Taith Adfent Ysgol y Gadeirlan Esgobaeth Llandaf

Mewn enghraifft o ysgol yn esgobaeth Mynwy roedd dysgwyr yn ei chael hi'n anodd ateb y cwestiwn "Beth yw lloches?" Roedd un plentyn yn credu mai rhywbeth i'w wneud â rhoi ydoedd o bosibl.

Ar ôl cwblhau'r prosiect, datblygodd dealltwriaeth ac roedd yr ymatebion yn cynnwys "ceisio lle diogel i fyw, ceisio dod o hyd i rywle diogel i fod, dod o hyd i rywle croesawgar a diogel, chwilio am heddwch, dod o hyd i rywle rydych chi'n perthyn iddo, angen lloches, dianc rhag perygl."

Gwnaeth ysgol yn esgobaeth Llanelwy angylion croeso, gan ddefnyddio cyfarchion mewn gwahanol ieithoedd i'w harddangos y tu allan i'r ysgol ar gyfer pobl sy'n mynd heibio. Pan ofynnwyd iddynt pam ei bod yn bwysig gwneud i bobl deimlo bod croeso iddynt, roedd yr ymatebion yn cynnwys:

"Oherwydd ein bod ni'n gallu dysgu ein hiaith iddyn nhw, efallai eu bod nhw’n poeni, eu gwneud nhw'n hapus, gwneud iddyn nhw deimlo ein bod ni'n bobl garedig, felly does dim ofn arnyn nhw, rhoi gofal iddyn nhw, dangos cariad atyn nhw, mae'n bwysig bod yn garedig."

Defnyddiodd ysgol yn esgobaeth Tyddewi'r adnoddau yn eu gwasanaethau. Buont yn trafod pam y gallai pobl fod wedi gadael eu gwledydd, pwy y byddent wedi'u gadael ar ôl a beth oedd eu gobeithion. Nododd yr ysgol newid amlwg o ansicrwydd i empathi.

Defnyddiodd ysgol yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu seddi poeth i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r siwrnai a gymerodd Mair a Joseff ac ystyried sut roeddent yn teimlo yn ystod gwahanol rannau o'r daith. Roedd Blwyddyn 6 wedi bod yn trafod Hierarchiaeth Anghenion Maslow hefyd.


Defnyddiodd ysgol yn Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu seddi poeth i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r siwrnai a gymerodd Mair a Joseff ac ystyried sut roeddent yn teimlo yn ystod gwahanol rannau o'r daith. Roedd Blwyddyn 6 wedi bod yn trafod Hierarchiaeth Anghenion Maslow hefyd.




Seddi poeth – Ysgol Gynradd y Santes Fair yr Eglwys yng Nghymru,
Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu

**Creodd ysgol yn esgobaeth Bangor goeden groeso a llyfr croeso gyda negeseuon o groeso wedi'u hysgrifennu ynddo.**
**Lleolwyd hyn wrth fynedfa'r ysgol i groesawu ymwelwyr. Hefyd, crëwyd mapiau teimladau o amgylch y stori Refuge i'w helpu i ddangos empathi â Mair a Joseff a meddwl am eu siwrnai nhw. Ysgrifennodd un myfyriwr weddi Adfent mewn Braille.**








**Map teimladau , llyfr croeso, gweddi Braille a choeden groeso o Ysgol Llandwrog, Esgobaeth Bangor**

**Nod 2 - Deall sut mae ethos ysgol eglwysig yn cefnogi ac yn gwella gallu plant i fyfyrio ar y cysyniad o loches.**


**Dangosodd amrywiaeth o fyfyrdodau ar draws yr ysgolion sut y datblygodd y dysgwyr sgiliau empathi a oedd yn eu galluogi i ddeall y gwahanol deimladau a allai fod gan bobl wrth geisio noddfa.**
**Roedd ysgol yn Nhrefynwy wedi cynnwys myfyrdodau gan blant y cyfnod sylfaen fel "Pan ddaeth Mair a Joseff o hyd i loches roedden nhw'n teimlo'n llawen am eu bod nhw'n ddiogel." "Rwy'n credu bod Mair yn teimlo'n ofidus oherwydd bod y daith mor hir." "Roedd Mair yn teimlo ei bod hi mewn perygl oherwydd nad oedd ganddi gartref." "Roedd ofn ar Joseff oherwydd bod angen lloches arnyn nhw."**
**Roedd ysgol yn Esgobaeth Llanelwy wedi trafod ystyr lloches a defnyddio canhwyllau adfent i fyfyrio ar werthoedd bob wythnos. Fe ysgrifennon nhw eu meddyliau ar 'ganhwyllau' a'u gosod ar dorch adfent.**





**Mewn rhai achosion, arweiniodd y prosiect at ddatblygu prosiectau eraill yn yr ysgol gyda ffocws ar deithiau a ffyrdd o groesawu eraill megis lle i weddïo ar gyfer teithiau Nadolig a Chalendr adfent amlieithog o Ysgol Gynradd Llansannor yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llandaf.**

Gofynnodd ysgol ym Mangor i blant recordio myfyrdodau ar ddechrau'r wythnos ac yna ar ddiwedd yr wythnos. Ar y dechrau roedd y ffocws ar ddisgrifiad o loches yn bennaf ond erbyn diwedd yr wythnos roedd hyn wedi newid i ganolbwyntio ar driniaeth gywir a theg i bawb. Adroddodd y staff y gallai sylweddoli bod Mair a Joseff wedi wynebu taith anodd yn yr un modd â ffoaduriaid fod wedi newid y ffordd yr oedd plant yn gweld y stori'n llwyr a'u hannog i drafod hawliau dynol




**Nod 3 - Archwilio a yw agweddau ac ymddygiad plant wedi newid a sut mae'r ethos Cristnogol wedi cefnogi'r newid hwn**

Mae enghraifft o esgobaeth Mynwy yn dangos bod ymatebion i gwestiynau ar ddechrau'r prosiect yn hunanymwybodol iawn; yn poeni sut y byddai peidio â chroesawu eraill yn effeithio arnyn nhw. Ar ddiwedd y prosiect gwelir ymateb mwy allgarol sy'n dangos mwy o ystyriaeth o effaith y croeso ar eraill.
Wrth ymateb i'r cwestiwn "Pam ei bod hi'n bwysig gwneud i bobl deimlo bod croeso iddyn nhw?"
Cyn - " Falle dy'n nhw ddim eisiau bod yn ffrindiau", "falle ddôn nhw ddim yn ôl", "fyddan nhw ddim yn eich hoffi chi "
Ar ôl - "Er mwyn iddyn nhw beidio bod yn drist a theimlo bod dim lle iddyn nhw", "Er mwyn iddyn nhw eich trin chi fel rydych chi'n eu trin nhw", "gwneud iddyn nhw deimlo eu bod nhw'n cael eu cynnwys a'u caru", "er mwyn iddyn nhw beidio teimlo eu bod nhw'n cael eu gadael allan a bod neb yn eu hoffi" , "Mae'n bwysig oherwydd nad ydyn nhw'n teimlo'n ynysig", "Er mwyn iddyn nhw fod yn hapus", "Er mwyn i ni wneud iddyn nhw deimlo eu bod yn perthyn"

Mae enghreifftiau o ysgrifennu o ysgol yn Llandaf yn dangos datblygiad sgiliau empathi. Mae'r plentyn yn disgrifio ymateb rhywun wrth gael cynnig cartref diogel "roedd yn wych, roeddem yn ddiolchgar am ein bod yn ddiogel a dyna'r unig beth yn y byd sy'n bwysig"

Dechreuodd rhai plant feddwl am newidiadau y gallen nhw eu gwneud yn eu hysgolion. Mewn un enghraifft o Landaf, roedd plant yn ysgrifennu llythyrau at y pennaeth yn gwneud awgrymiadau ymarferol. Roeddynt yn cynnwys: defnyddio system cyfeillion, rhannu gwybodaeth, coginio bwyd o wahanol wledydd, bod yn ffrind, prynu llyfrau mewn gwahanol ieithoedd, gwneud i bobl deimlo'n gyffyrddus.

Edrychodd ysgol ym Mangor ar ddymuniadau ac anghenion fel rhan o'r prosiect a chwblhaodd y plant grid dymuniadau ac anghenion a arweiniodd at drafod pa bethau oedd yn bwysig iddyn nhw a pham. Arweiniodd hyn at ddatblygu eu dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng eisiau ac angen. Rhoddodd ysgolion o bob rhan o'r esgobaeth yr enghreifftiau canlynol o newidiadau; Llyfr croeso a Choeden groeso wedi'u rhoi wrth fynedfa'r ysgol, llythyr at y llywodraethwyr / esgob / cyngor i ofyn am gefnogaeth ar gyfer mainc groeso yn eu gardd synhwyraidd newydd, ail-gynllunio mynedfa'r ysgol, a datblygu waliau croeso gydag amrywiaeth o ieithoedd.

**"Hoffwn i deimlo bod croeso i mi…dyna'r Rheol Aur….dylech drin eraill fel yr hoffech chi i eraill eich trin chi."**



**Angylion Croeso yn Ysgol Gynradd Hawarden Village yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy**



**Gardd ysbrydol yn yn Ysgol Gynradd Hawarden Village yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy**

**Casgliad**

**Roedd defnyddio'r llyfr 'Refuge' gan Anne Booth yn ysgogiad a alluogodd ysgolion i ddefnyddio'r Adfent, tymor traddodiadol yn y calendr Cristnogol, mewn ffordd newydd i archwilio un elfen o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn gymdeithas amrywiol yn y Gymru gyfoes. Rhoddodd y dull hwn fwy o berthnasedd i ystyr stori'r Adfent a mwy o werthfawrogiad o pam y gall fod angen noddfa ar bobl a beth mae hynny'n ei olygu.**

**Yn ystod y prosiect, datblygodd gwybodaeth a dealltwriaeth y plant ynghylch ystyr lloches a beth yw ystyr ceisio noddfa. Mewn rhai achosion, dangosodd tystiolaeth fod plant yn edrych ar y cysyniad i ddechrau o safbwynt o fygythiad gyda ffocws ar ei effaith arnyn nhw a sut mae'n effeithio ar eu bywydau. Wrth iddynt fynd ati i archwilio ystyr lloches, felly datblygodd eu dealltwriaeth o'r heriau mae ffoaduriaid yn eu hwynebu a symudodd y pwyslais i un lle'r oedd mwy a mwy o empathi tuag at y rhai oedd yn chwilio am noddfa.**

**Rhoddwyd pwyslais cryf ar fyfyrio trwy gydol y prosiect a chyfle i blant ddefnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth newydd a'u cymhwyso i deimladau pobl eraill. Er mwyn eu helpu i wneud hyn, roedd plant yn gwneud mwy a mwy o ddefnydd o iaith gwerthoedd a rhoddodd hyn gyfrwng iddynt allu mynegi eu hymwybyddiaeth gynyddol o gymhlethdod emosiynau a theimladau wrth i'w hempathi tuag at y rhai oedd yn chwilio am noddfa ddyfnhau.**

**Tua diwedd y prosiect, cafodd plant eu hysbrydoli gan alwad i weithredu ar y pethau y gallent eu gwneud i sicrhau y byddai croeso'n cael ei estyn i unrhyw un a oedd yn chwilio am noddfa a chyfle i feithrin ymdeimlad o berthyn.**

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

**Beth nawr?**
**Mae rhai o'n hysgolion yn parhau i weithio gyda'i gilydd ar brosiectau megis Ysgol Noddfa.**
**Mae timau addysg pob esgobaeth ynghyd â'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwymo i gyfres o brosiectau ymchwil yn y dosbarth er mwyn parhau i ddatblygu dealltwriaeth o ddulliau amlblwyfol yn ein hysgolion ac i rannu arfer da ledled Cymru.**
**Byddwn yn ymdrechu i ddarparu adnoddau, syniadau a chefnogaeth sy'n gwella dulliau cwricwlwm newydd a hynodrwydd ysgolion eglwysig.**
**Ar gais llawer o ysgolion byddwn yn darparu adnoddau Taith Adfent eto ar gyfer Adfent 2021 gyda rhai deunyddiau ychwanegol newydd wedi'u hychwanegu.**



**"Refuge" Ysgol y Gadeirlan, Esgobaeth Llandaf**

**Gyda diolch i ysgolion yr eglwys ledled Cymru am groesawu'r Daith Adfent. Hefyd diolch i Ysgol Gynradd Kitchener ac Ysgol Gynradd Peter Lea, Caerdydd.**

**Diolch arbennig i'n hysgolion ffocws:**
**Ysgol Gynradd y Santes Fair yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu**
**Ysgol Gynradd Llansanwyr yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llandaf**
**Ysgol y Gadeirlan, Esgobaeth Llandaf**
**Ysgol Gynradd Dewi Sant yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy**
**Ysgol Gynradd Llaneirwg yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Mynwy**
**Ysgol Gynradd Sant Oswallt yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Tyddewi**
**Ysgol Gynradd Sant Marc yr Eglwys yng Nghymru, EsgobaethTyddewi**
**Ysgol Gynradd Eutun yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy**
**Ysgol Gynradd Hawarden Village yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy**
**Ysgol Llandygai, Esgobaeth Bangor**
**Ysgol Llandwrog, Esgobaeth Bangor**